WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o 'Hyrwyddo Ynys Môn er mwyn Annog Datblygwyr Mawr i Fuddsoddi yn yr Ynys' – **Cyngor Sir Ynys Môn**


Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1378A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir Ynys Môn fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru nac mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn ei gymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ei ddilyn, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a thrydydd partïon perthnasol. Dylai unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon gael eu hanfon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Jeremy Evans, Alan Hughes ac Euros Lake dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys


Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy o ran datblygu'r cam, ond mae cyfleoedd i wreiddio'r pum ffordd o weithio ymhellach

Adroddiad cryno 4

Adroddiad Manwl 6

Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad 6

Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy o ran datblygu'r cam, ond mae cyfleoedd i wreiddio'r pum ffordd o weithio ymhellach 6

Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth drylwyr am anghenion cyfredol a hirdymor cymunedau a'r heriau a chyfleoedd cysylltiedig a gyflwynir gan ddatblygiadau mawr ar yr ynys 6

Mae'r Cyngor wedi ceisio cael dealltwriaeth drylwyr am effeithiau anffafriol prosiect ar raddfa fawr, ac mae'n deall pwysigrwydd casglu data i oleuo'i weithgareddau ataliol 7

Mae'r Cyngor yn ystyried sut y gallai ei gam gyfrannu at y saith nod llesiant a'i amcanion llesiant eraill, ond nid yw wedi ystyried yn ffurfiol sut y bydd y datblygiad yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill 9

Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i gydweithio gyda phartneriaid ac adlewyrchu anghenion a dymuniadau cymunedau lleol, ond gallai wella'r modd y mae'n adolygu effeithiolrwydd y cydweithio 10

Mae'r Cyngor wedi cynnwys rhanddeiliaid ym mhrosiect Wylfa Newydd, ond mae angen iddo ddatblygu ei ddull o gynnwys amrywiaeth lawn y gymuned 10

Rhan Dau: Ymateb y Cyngor 12

Atodiadau

Atodiad 1 – Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio 16

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam y cynhaliom ni'r Archwiliad

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) mae'n ofynnol yn statudol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wneud y canlynol:

a. pennu eu hamcanion llesiant; a

b. cymryd camau i'w cyflawni.

Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'

2 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn bob un o etholiadau'r Cynulliad. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o'i fath erbyn 2020, cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2021.

3 Yn ystod 2018-19 mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliadau ar draws y 44 o gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf i oleuo'i adroddiad ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol.

4 Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad, 'Myfyrio ar Flwyddyn Un - Sut mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)'. Daeth i'r casgliad bod cyrff cyhoeddus yn cefnogi egwyddorion y Ddeddf ac yn cymryd camau i newid y ffordd y maent yn gweithio.

5 Wrth ddatblygu ein dull o gynnal yr archwiliadau yn ystod 2018-19 fe wnaethom ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid gan gynnwys trwy ein gwaith peilot yn ystod 2017-18. Fe wnaethom hefyd gydweithio'n agos gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

6 Gan bod y gwaith rhagarweiniol ym mlwyddyn un wedi cynnwys ystyried sut yr oedd cyrff cyhoeddus wedi pennu eu hamcanion llesiant, prif ffocws y gwaith hwn yw'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.

7 Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a wnaethom yn ystod y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2018 a mis Ionawr 2019.

8 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau o'n harchwiliad o gam y mae'r Cyngor yn ei gymryd i gyflawni ei amcanion llesiant, sef: Hyrwyddo Ynys Môn er mwyn Annog Datblygwyr Mawr i Fuddsoddi yn yr Ynys ac yn defnyddio hyn fel catalydd ar gyfer datblygu busnesau a swyddi ar yr Ynys.

9 Mae hefyd yn nodi ymateb cychwynnol y Cyngor i'n canfyddiadau.

## Yr hyn y gwnaethom ei archwilio

10 Er mwyn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y 'ffyrdd o weithio' canlynol:

### Arddangosyn 1: y 'pum ffordd o weithio'

Mae'r tabl isod yn nodi'r 'pum ffordd o weithio' a ddiffinnir yn nogfen 'Hanfodion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol[1]' Llywodraeth Cymru.

| Y Pum Ffordd o Weithio |
|---|
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. |
| **Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithio**<br>Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. |
| **Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu. |

11 Canfu ein harchwiliad fel a ganlyn: **Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy o ran datblygu'r cam, ond mae cyfleoedd i wreiddio'r pum ffordd o weithio ymhellach.**

[1] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion, Llywodraeth Cymru (2015)

# Adroddiad manwl

## Rhan 1 – Canfyddiadau'r Archwiliad

## Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy o ran datblygu'r cam, ond mae cyfleoedd i wreiddio'r pum ffordd o weithio ymhellach

### Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth drylwyr am anghenion cyfredol a hirdymor cymunedau a'r heriau a chyfleoedd cysylltiedig a gyflwynir gan ddatblygiadau mawr ar yr ynys

#### Yr hyn y chwilion ni amdano

12 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am anghenion cyfredol a hirdymor a'r heriau a chyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio dros raddfa amser briodol;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau manteision hirdymor; a
- monitro ac adolygu priodol.

13 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr 'hirdymor' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[2]

#### Yr hyn a ganfuom

14 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi ceisio taro cydbwysedd rhwng y manteision hirdymor a'r effeithiau byrdymor posibl. Mae enghreifftiau'n cynnwys gweithio'n frwd i uwchsgilio'r gweithlu lleol fel eu bod yn gallu elwa ar gyfleoedd, a fydd yn ei dro'n cyfrannu at leddfu'r effaith anffafriol ar y Gymraeg.
- mae'r Cyngor yn casglu amrywiaeth eang o ddata y bydd yn ei ddefnyddio i fonitro effaith datblygiadau mawr yn y tymor hwy.
- mae argaeledd data'n cynnig y potensial i helpu'r Cyngor i sicrhau manteision cadarnhaol i gymunedau Ynys Môn, er enghraifft trwy ei Strategaeth Cyfraniadau i Fanteision Cymunedol.

[2] Gweler Atodiad 1

- mae'r Cyngor yn diffinio hirdymor yn wahanol mewn cyd-destunau gwahanol – er enghraifft, ar gyfer diogelu'r Gymraeg roedd yn ystyried bod y cyfnod adeiladu o 10 mlynedd ar gyfer Wylfa Newydd yn hirdymor iawn, ond ar gyfer ymdrin â gwastraff niwclear mae 10 mlynedd yn fyrdymor iawn.
- mae'r Cyngor wedi gweithio gyda chyrff eraill yn y sector cyhoeddus gan gynnwys PBC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i fapio sut y byddai Ynys Môn yn edrych gyda a heb y buddsoddiad.
- mae'r Cyngor wedi buddsoddi adnoddau i sicrhau bod datblygiadau mawr yn gynaliadwy i gymunedau Ynys Môn yn ei chyfanrwydd yn yr hirdymor. Mae enghreifftiau allweddol yn cynnwys cynhyrchu'r canllawiau cynllunio atodol a sefydlu a chymhwyso fframwaith etifeddiaeth, sy'n nodi disgwyliadau'r Cyngor a'i bartneriaid y bydd yr holl brosiectau mawr yn dwyn etifeddiaeth gadarnhaol i Ynys Môn.
- mae gan y Cyngor fesurau i fonitro ei effeithiolrwydd o ran ymdrin â datblygiadau mawr ar yr ynys. Mae a wnelo llawer ag effaith y Canllawiau Cynllunio Ategol ond mae hefyd yn ceisio sefydlu data sylfaenol i fonitro effaith hirdymor Wylfa ar bobl ifanc y sir.
- mae'r Cyngor yn gweithio gyda darparwyr addysg a sgiliau lleol i helpu i ddatblygu gweithlu medrus yn lleol a all gynyddu i'r eithaf fanteision cyfleoedd gwaith, gan felly atal y posibilrwydd bod cyfleoedd ar gyfer y gweithlu rhanbarthol yn cael eu colli.

15 Canfuom y cyfle canlynol ar gyfer gwella:

- fel rhan o'r Rhaglen Ynys Ynni, mae'r Cyngor wedi modelu effaith senarios amrywiol ar agweddau ar lesiant ledled yr ynys. Yn dilyn cyhoeddi bod y prosiect yn cael ei ohirio, dylai'r Cyngor adolygu'r effeithiau ar y senarios a fodelwyd ganddo.

## Mae'r Cyngor wedi ceisio cael dealltwriaeth drylwyr am effeithiau anffafriol prosiect ar raddfa fawr, ac mae'n deall pwysigrwydd casglu data i oleuo'i weithgareddau ataliol

### Yr hyn y chwilion ni amdano

16 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am natur y broblem a'r math o broblem y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag digwydd neu fynd yn waeth;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau y bydd manteision ataliol yn cael eu cyflawni; a
- gwaith i fonitro ac adolygu pa mor effeithiol yw'r cam o ran atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth.

17 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘atal’ yr ydym wedi’u hadnabod a’u defnyddio fel rhan o’r archwiliad hwn.[3]

## Yr hyn a ganfuom

18 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth am natur y broblem a’r math o broblem y gallai’r cam ei hatal rhag digwydd neu fynd yn waeth. Mae’r Cyngor yn ceisio gwneud Ynys Môn yn gyrchfan deniadol ar gyfer mewnfuddsoddi a fydd yn creu swyddi, ac yn hybu swyddi crefftus a swyddi â chyflog da yn y diwydiant lleol, gan felly atal cymunedau ar yr ynys rhag dirywio.
- mae’r Cyngor yn deall pwysigrwydd casglu data i oleuo’i weithgareddau ataliol ac mae’n gwneud hynny’n eang, o bethau fel twristiaeth, effaith ar y Gymraeg, i barcio a phwysau cynyddol ar ffyrdd o dde i ogledd Ynys Môn.
- mae adnoddau’n cael eu neilltuo i sicrhau dealltwriaeth am faterion fel bod y Cyngor yn gallu ymyrryd/atal yn briodol.
- o ystyried amserlenni’r prosiect, mae monitro effaith atal yn anodd ar hyn o bryd gan ei bod yn bosibl na fydd llawer o effeithiau ymyriadau ataliol yn cael eu teimlo nes yr adeg pan (os) bydd Wylfa yn mynd yn ei flaen. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau o ddata sylfaenol sy’n cael ei sefydlu a’i adolygu gan y Cyngor ar hyn o bryd. Mae modelu tueddiadau’r dyfodol fel rhan o’r Rhaglen Ynys Ynni yn goleuo’r dull hwn hefyd.

19 Canfuom y cyfle canlynol ar gyfer gwella:

- yn dilyn gohirio prosiect Wylfa Newydd, bydd angen i’r Cyngor barhau i hyrwyddo Ynys Môn fel cyrchfan i ddatblygwyr mawr newydd fuddsoddi ynddo. Mae’r cyfnod atal yn gyfle i fyfyrio ar ei ddulliau.

[3] Gweler Atodiad 1

## Mae’r Cyngor yn ystyried sut y gallai ei gam gyfrannu at y saith nod llesiant a’i amcanion llesiant eraill, ond nid yw wedi ystyried yn ffurfiol sut y bydd y datblygiad yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill

### Yr hyn y chwilion ni amdano

20 Fe chwilion ni am dystiolaeth o ystyried y canlynol:

- sut y gallai’r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni’r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant y Cyngor a blaenoriaethau ehangach; a
- sut y bydd cyflawni’r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

21 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘integreiddio’ yr ydym wedi’u hadnabod a’u defnyddio fel rhan o’r archwiliad hwn.[4]

### Yr hyn a ganfuom

22 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae’r Cyngor yn ystyried sut y gallai ei gam gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol. Er enghraifft, mae ei fframwaith etifeddiaeth yn cysylltu â’r saith nod llesiant cenedlaethol.
- clywsom fod maint y prosiect wedi annog y Cyngor i greu cysylltiadau rhwng ei amryw adrannau, gan bod effaith y datblygiad mor eang.
- mynegodd swyddogion ddealltwriaeth dda ynghylch sut yr oedd datblygu ar raddfa fawr yn effeithio ar holl weithgareddau’r Cyngor ac ar draws ystod eang o amcanion llesiant.

23 Canfuom y cyfle canlynol ar gyfer gwella:

- nid yw’r Cyngor wedi ystyried yn ffurfiol sut y bydd y datblygiad yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

[4] Gweler Atodiad 1

## Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i gydweithio gyda phartneriaid ac adlewyrchu anghenion a dymuniadau cymunedau lleol, ond gallai wella'r modd y mae'n adolygu effeithiolrwydd y cydweithio

### Yr hyn y chwilion ni amdano

24 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw cydweithio'n ei helpu ef neu'n helpu ei randdeiliaid i gyflawni amcanion llesiant.

25 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cydweithio' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[5]

### Yr hyn a ganfuom

26 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor yn ystyried mai ei rôl yw bod yn gyfrwng rhwng y datblygwyr mawr a chymunedau Ynys Môn, ac mae wedi hyrwyddo'r ynys yn frwd fel cyrchfan ar gyfer buddsoddiadau mawr.
- mae'r Cyngor wedi mapio ei strwythurau llywodraethu yn ôl trefniadau safonol y diwydiant niwclear ac wedi mapio trefniadau cydweithio gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor o'r farn bod yr ymarfer mapio wedi cael effaith gadarnhaol ar gydweithio.

27 Canfuom y cyfle canlynol ar gyfer gwella:

- ychydig o dystiolaeth sydd i awgrymu bod y Cyngor yn awgrymu effeithiolrwydd gwaith mewn partneriaeth ac yn dysgu gwersi o'i ddull.

## Mae'r Cyngor wedi cynnwys rhanddeiliaid ym mhrosiect Wylfa Newydd, ond mae angen iddo ddatblygu ei ddull o gynnwys amrywiaeth lawn y gymuned

### Yr hyn y chwilion ni amdano

28 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

[5] Gweler Atodiad 1

- wedi adnabod pwy y mae angen iddo'u cynnwys wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi mynd ati mewn ffordd effeithiol i gynnwys rhanddeiliaid wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi defnyddio canlyniadau cynnwys pobl i ddylanwadu ar ddatblygu a chyflawni'r cam; ac
- wedi ceisio dysgu gwersi a gwella'i ddull o gynnwys.

29 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cynnwys' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[6]

## Yr hyn a ganfuom

30 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd deall barn dinasyddion yn ogystal â rhanddeiliaid eraill.
- fe ymgynghorodd y Cyngor yn eang wrth ddatblygu ei ganllawiau cynllunio atodol mewn perthynas â datblygiadau mawr.
- mae'r Cyngor wedi cynnal ymarferion ymgysylltu er mwyn deall barn dinasyddion ynglŷn â datblygiadau ac wedi darparu enghreifftiau o ymgysylltu â chymunedau anodd i'w cyrraedd ledled yr ynys, gan gynnwys trwy ddefnyddio ei Fforwm Ieuenctid ei hun i bobl ifanc trwy'r mudiad trydydd sector, Medrwn Môn.
- mae'r cyngor yn gwerthfawrogi rôl cynghorwyr o ran ymgysylltu â chymunedau a dinasyddion, ac mae'n briffio Aelodau'n amserol i oleuo trafodaethau y byddant o bosibl yn eu cael gyda'u cymunedau.
- mae Partneriaeth Gogledd Ynys Môn yn gyfrwng i gynghorau tref a chymuned gael eu cynnwys yn effeithiol wrth gyflawni'r cam.
- mae'r Cyngor wedi sefydlu bwrdd ymgysylltu ac ymgynghori corfforaethol i gydlynu a gwella'i weithgarwch ymgysylltu ar draws yr holl feysydd gwasanaeth.

31 Canfuom y cyfleoedd canlynol ar gyfer gwella:

- mae'r Cyngor wedi adnabod yr angen i osgoi jargon technegol yn y dyfodol i gyfathrebu ac ymgysylltu'n well â dinasyddion ac arweinwyr cymunedol mewn ymgyngoriadau.
- mae angen i'r Cyngor ddatblygu ei ddull o gynnwys amrywiaeth lawn y gymuned.

[6] Gweler Atodiad 1

# Rhan Dau: Ymateb y Cyngor

32 Yn dilyn cwblhau ein gwaith maes fe gyflwynon ni ein canfyddiadau i swyddogion y Cyngor mewn gweithdy ym mis Mawrth 2019. Yn y gweithdy hwn dechreuodd y Cyngor ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau ac o ganlyniad i drafodaethau yn y gweithdy, a myfyrio pellach ar ein canfyddiadau, mae'r Cyngor wedi datblygu'r camau gweithredu canlynol dan themâu penodol.

| Hirdymor – Cyfle | Cam Gweithredu'r Cyngor |
|---|---|
| Fel rhan o'r Rhaglen Ynys Ynni, mae'r Cyngor wedi modelu effaith senarios amrywiol ar agweddau ar lesiant ledled yr ynys. Yn dilyn cyhoeddi bod y prosiect yn cael ei ohirio, dylai'r Cyngor adolygu'r effeithiau ar y senarios a fodelwyd ganddo | Cafodd y cyhoeddiad gan Hitachi i ohirio prosiect Wylfa Newydd ei ddilyn yn gyflym gan y cyhoeddiad y byddai ffatri Rehau yn Amlwch yn cau. Mae'r cyhoeddiadau hyn, yn ychwanegol at y gostyngiad yn nifer y swyddi yn sgil digomisiynu'r orsaf bŵer Magnox yn Wylfa yn ergyd anferthol i economi a chymunedau Gogledd Ynys Môn.<br>Mae'r effeithiau hyn wedi cael eu hasesu ac wedi cael eu cymryd i ystyriaeth yn y Cynllun Adfywio drafft ar gyfer Gogledd Ynys Môn sydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd. Mae'r Cynllun drafft wedi cael ei rannu gyda Llywodraeth Cymru sydd wedi ymrwymo i ddarparu arian ychwanegol. Bydd hefyd yn sylfaen ar gyfer bid i'r Awdurdod Digomisiynu Niwclear, corff y mae'r Cyngor wedi arfer gweithio mewn partneriaeth ag ef ar brosiectau cyflogaeth ac adfywio.<br><br>Bydd y senario 'bywyd real, amser real' yn cael ei fonitro er mwyn asesu allbynnau'r camau gweithredu perthnasol yn erbyn y nodau a'r amcanion Llesiant. |
| **Atal – Cyfle** | **Camau Gweithredu'r Cyngor** |
| Yn dilyn gohirio prosiect Wylfa Newydd, bydd angen i'r Cyngor barhau i hyrwyddo Ynys Môn fel cyrchfan i ddatblygwyr mawr newydd fuddsoddi ynddo. Mae'r cyfnod atal yn gyfle i fyfyrio ar ei ddulliau | Mae'r Cyngor yn ymrwymo i helpu i sicrhau y bydd Wylfa Newydd a phrosiectau cynhyrchu ynni eraill gan gynnwys cynlluniau llanw arforol arfaethedig Minesto a Morlais, y datblygiad SMR niwclear yn Nhrawsfynydd yng Ngwynedd a chynllun fferm wynt Rhiannon yn y Môr eu datblygu drwodd i weithrediad masnachol.<br><br>I'r perwyl hwn, mae'r Cyngor wedi cyflwyno tystiolaeth ar lafar, gan gynnwys tystiolaeth ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, i Ymchwiliad Pwyllgor Materion Cymreig Llywodraeth y DU i Orsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd. |

| Atal – Cyfle | Camau Gweithredu'r Cyngor |
|---|---|
| | Fe wnaeth y Cyngor hefyd baratoi cyflwyniad ysgrifenedig manwl mewn ymateb i ymgynghoriad y Trysorlys ar ariannu prosiectau seilwaith ynni mawr.<br><br>Mae'r Arweinydd ac uwch swyddogion y Cyngor yn cysylltu'n rheolaidd â rheolwyr Pŵer Niwclear Horizon Cyf a chyda Gweinidogion ac uwch swyddogion yn Llywodraethau'r DU a Chymru.<br><br>Yn dilyn y gohiriad, mae'r Cyngor yn cynnal ymarfer 'Gwersi a Ddysgwyd' cynhwysfawr. |
| **Integreiddio – Cyfle** | **Cam Gweithredu'r Cyngor** |
| Nid yw'r Cyngor wedi ystyried yn ffurfiol sut y bydd y datblygiad yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill | Bydd y Cyngor yn ymgysylltu'n llawn â Llywodraeth Cymru wrth baratoi ei Gynllun 'Ffyniant i Bawb' ar gyfer Gogledd Cymru gan ddibynnu'n drwm ar Gynllun Twf Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, sef y Cynllun Llesiant ar gyfer y Rhanbarth. Bydd hyn yn sicrhau hierarchaeth o Gynlluniau Llesiant cyd-gysylltiedig o lefel gymunedol i lefel Ynys Môn gyfan drwy'r Nodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor a'r Strategaeth Genedlaethol 'Ffyniant i Bawb'.<br><br>Fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol lletyol yn ystod y broses Gorchymyn Caniatâd Datblygu mae'r Cyngor wedi gweithio'n agos gyda chyrff cyhoeddus a thrydydd sector, gan gynnwys Llywodraeth Cymru er mwyn drafftio Cytundeb Adran 106 cynhwysfawr a sefydlwyd gyda Pŵer Niwclear Horizon Cyf. Lluniwyd y Cytundeb hwn, sydd ar raddfa a chymhlethdod di-gyffelyb yng Nghymru ac sydd werth degau o filiynau o bunnoedd, drwy weithio ar egwyddorion datblygiad cynaliadwy, nodau ac amcanion Llesiant a ffyrdd o weithio cysylltiedig â hynny. Nod y mesurau lliniaru manwl a'r ymrwymiadau oedd adlewyrchu blaenoriaethau ac amcanion llesiant y partïon a gyfathrebwyd trwy gyfres o gyfarfodydd dwyochrog a sesiynau o Fforwm Tîm Cymru o gyrff cyhoeddus yng Nghymru sy'n cael eu cynnull ar y cyd rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru. |

| Integreiddio – Cyfle | Cam Gweithredu'r Cyngor |
|---|---|
| | Fel rhan o'r ymarfer 'Gwersi a Ddysgwyd' y cyfeirir ato uchod, mae'r Cyngor yn paratoi Cynllun Ymgysylltu manwl. Mae'r Cytundeb Adran 106 wedi cael ei baratoi ar sail thematig ac yn ogystal, mae'n cynnwys Cronfa Gymunedol sylweddol. Bydd y Cynllun yn cynnwys monitro effeithiau mesurau lliniaru dan y penawdau thematig perthnasol sy'n cyfateb yn gyffredinol i'r cyrff cyhoeddus cyfatebol, e.e. gwasanaethau iechyd a diogelwch, trafnidiaeth, hamdden; ac ar lefelau cymunedol ble mae'r amcanion Llesiant yn cyfuno ar lefel ofodol. |
| **Cydweithio – Cyfle** | **Cam Gweithredu'r Cyngor** |
| Ychydig o dystiolaeth sydd i awgrymu bod y Cyngor yn awgrymu effeithiolrwydd gwaith mewn partneriaeth ac yn dysgu gwersi o'i ddull | Nid yw gweithio mewn partneriaeth yn 'ganlyniad' ynddo'i hun ond yn hytrach yn 'ddull' o sicrhau 'canlyniad'. Yn achos y Cyngor, y 'canlyniadau' hyn yw cyflawni'n llwyddiannus y camau gweithredu i sicrhau'r allbynnau er mwyn gwireddu Nodau ac Amcanion ei Gynllun Corfforaethol. Y rhain yw'r gyrwyr ar gyfer y Cynlluniau Gwasanaeth blynyddol sy'n cynnwys nifer o gamau gweithredu sy'n cael eu dyfeisio ar gyfer eu cyflawni drwy weithio mewn partneriaeth ar draws gwasanaethau ac mewn partneriaeth gyda chyrff sector cyhoeddus, preifat a thrydydd sector.<br><br>Bydd effeithiolrwydd gwaith partneriaeth o'r fath yn cael ei asesu drwy fonitro a gwerthuso'n flynyddol y camau gweithredu hyn yn erbyn allbynnau/canlyniadau ar lefel Gwasanaethau a lefel Gorfforaethol, gyda'r Gwersi a Ddysgwyd yn cael eu dwyn at ei gilydd a'u rhannu fel arfer dda i'w mabwysiadu ar draws y Cyngor. |
| **Cynnwys – Cyfle** | **Cam Gweithredu'r Cyngor** |
| Mae'r Cyngor wedi adnabod yr angen i osgoi jargon technegol yn y dyfodol i gyfathrebu ac ymgysylltu'n well â dinasyddion ac arweinwyr cymunedol mewn ymgyngoriadau | Mae nifer o ymgynghoriadau statudol yn cael eu cynnal mewn cyd-destun statudol sy'n golygu y ceir cryn dipyn o derminoleg a jargon cyfreithiol a thechnegol. Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i gyfathrebu mewn iaith sy'n 'addas i'r pwrpas' ac yn berthnasol ar gyfer y gynulleidfa darged. Bydd y dull hwn yn cael ei fabwysiadu mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol. Mae'r Cyngor hefyd yn ymwybodol fod pobl yn cael eu llethu gan ymgynghoriadau a ble bynnag y mae hynny'n bosibl, mae'n ceisio osgoi dyblygu a sicrhau nad yw ymgynghoriadau'n cael eu cynnal ar yr un pryd. |

| Cynnwys – Cyfle | Cam Gweithredu'r Cyngor |
|---|---|
| Mae angen i'r Cyngor ddatblygu ei ddull o gynnwys amrywiaeth lawn y gymuned | Bydd y Cyngor yn parhau i ddatblygu ei ymagwedd o sicrhau cynhwysiant gan ymgysylltu'n llawn ag amrediad o partïon perthnasol. Bydd hyn yn cynnwys diweddaru'n rheolaidd ei gofrestr o 'Grwpiau Lleiafrifol a Grwpiau Anodd Ymgysylltu â Nhw' a gweithredu Gwersi a Ddysgwyd o ran sut orau i ymgysylltu gyda'r grwpiau hyn drwy brofiadau'r Swyddogion Ymgysylltiad Cymunedol a gyflogir gan y Cyngor a Pŵer Niwclear Horizon Cyf yn yr ymgynghoriadau ffurfiol ac anffurfiol a gynhaliwyd drwy gydol proses DCO Wylfa Newydd. |
| Mae camau gweithredu tymor byr a thymor hir wedi cael eu rhestru uchod dan y cynigion 'Cyfle ar gyfer Gwella' perthnasol a gytunwyd yn llawn gan y Cyngor. | Gellir rhannu'r gwersi sylweddol a ddysgwyd o'r prosiect yn gorfforaethol ar draws y Cyngor a chyda phartneriaid allweddol drwy gyflwyniadau a thrafodaethau ar 'Gwersi a Ddysgwyd' a'r ymarfer sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd ar y Cynllun Ymgysylltu.<br><br>Bydd amcanion llesiant y partneriaid a'r Cyngor yn cael eu defnyddio i ddyfeisio a chyflawni gweithredoedd ar y cyd er mwyn rhoi sylw i'r nodau a'r camau gweithredu yng Nghynlluniau Busnes y Gwasanaeth ac allbynnau/canlyniadau'n cael eu monitro yn erbyn y targedau y cytunwyd arnynt fel rhan o'r adolygiad blynyddol o Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor. |

33 Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran rhoi'r camau gweithredu hyn ar waith, ac i ba raddau y maent yn mynd i'r afael â'r materion yr ydym wedi'u hadnabod yn ein canfyddiadau.

# Atodiad 1

## Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio

Mae'r tabl isod yn nodi 'dangosyddion cadarnhaol' ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u hadnabod ac y byddwn yn eu defnyddio i helpu i oleuo ein hasesiadau i ganfod i ba raddau y gall cyrff fod yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy (EDC). Nid ydym yn bwriadu defnyddio'r dangosyddion fel 'rhestr wirio'. Dylid eu hystyried yn 'ddangosyddion' a fydd yn ein helpu i ddod i gasgliadau, yn hytrach nag yn 'benderfynyddion' sy'n nodi i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â'r EDC wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

Arddangosyn 1: Dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio hirdymor yn llawn? |
| --- |
| • Ceir dealltwriaeth glir am yr hyn y mae 'hirdymor' yn ei olygu yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni'r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni manteision yn y tymor byr neu ganolig, y ceir cydbwysedd rhyngddynt a'r effaith dros yr hirdymor (yng nghyd-destun y prosiect).<br>• Maent wedi dylunio'r cam yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig am yr angen a phwysau yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol.<br>• O ganlyniad, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr am risgiau a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol.<br>• Mae adnoddau wedi cael eu dyrannu i sicrhau bod manteision hirdymor yn ogystal â manteision byrdymor yn cael eu cyflawni.<br>• Ceir ffocws ar gyflawni deilliannau, gyda cherrig milltir/camau cynnydd wedi'u nodi lle bydd deilliannau'n cael eu cyflawni dros yr hirdymor.<br>• Maent yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i ddwyn manteision dros yr hirdymor.<br>• Maent yn gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn mynd ar drywydd dulliau seiliedig ar dystiolaeth. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio ataliol yn llawn?** |
| • Mae'r corff yn ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel bod modd mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.<br>• Mae'r corff yn ystyried heriau o safbwynt systemau cyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r manteision hirdymor y gallant eu dwyn i bobl a lleoedd.<br>• Mae'r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy'n debygol o gyfrannu at ddeilliannau gwell a defnydd gwell o adnoddau dros y tymor hwy, hyd yn oed lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion byrdymor.<br>• Ceir trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth camau ataliol ac yn derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau wrth fynd ar drywydd gwelliannau a ragwelir mewn deilliannau ac yn y defnydd o adnoddau. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'? |
|---|
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at wireddu'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei efelychu yn eu gwaith gyda chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau traws-sefydliadol sy'n rhan o wireddu'r uchelgais a chyflawni'r amcanion.<br>• Ceir diwylliant agored lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.<br>• Ceir dealltwriaeth sydd wedi datblygu'n dda am y modd y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.<br>• Mae unigolion yn gweithio mewn modd rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i wneud y cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau llesiant a lleihau effeithiau negyddol i'r eithaf.<br>• Mae trefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau'n cefnogi hyn, ac felly hefyd ymddygiadau. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol?** |
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a deilliannau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda am amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i lywio gweithgarwch cydweithredol.<br>• Mae gan y corff berthnasoedd cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud.<br>• Mae'r corff yn ceisio canfod prosesau cyffredin a ffyrdd cyffredin o weithio, lle y bo'n briodol. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?** |
| • Deall pwy y mae angen eu cynnwys a pham.<br>• Myfyrio pa mor dda y mae'r anghenion a'r heriau a wynebir gan y bobl hynny'n cael eu deall ar hyn o bryd.<br>• Gweithio mewn modd cydgynhyrchiol, gan weithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.<br>• Ystyried barn rhanddeiliaid fel ffynhonnell wybodaeth hanfodol a fydd yn helpu i gyflawni deilliannau gwell.<br>• Sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli a'u bod yn gallu cymryd rhan.<br>• Bod â pherthnasoedd aeddfed, seiliedig ar ymddiriedaeth â'i randdeiliaid lle ceir deialog barhaus a lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.<br>• Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru